

Craffu ar Drydedd Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020-21

Mawrth 2021

1. Cyflwyniad

1. Ar 16 Chwefror 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (y Gweinidog) y Drydedd Gyllideb Atodol ar gyfer 2020-21 (cyn i Amcangyfrifon Atodol y DU gael eu cyhoeddi ar 22 Chwefror).
2. Cymerodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth gan y Gweinidog yn ei gyfarfod ar 24 Chwefror 2021.

2. Trosolwg

3. Mae'r tablau yn y Drydedd Gyllideb Atodol wedi eu cymharu ag Ail Gyllideb Atodol wedi'i hailddatgan er mwyn cynnwys newidiadau i bortffolios Gweinidogol ar 8 Hydref 2020.¹
4. Mae'r Drydedd Gyllideb Atodol yn dyrannu bron i £1.3 biliwn o adnoddau cyllidol ychwanegol (6.9 y cant) a bron i £837 miliwn mewn cyfalaf (36.2 y cant). Mae yna hefyd gynnydd o £755 miliwn ar gyfer adnoddau nad ydynt yn arian parod a thros £100 miliwn o wariant a reolir yn flynyddol.
5. O'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2020-21, mae cyfanswm y dyraniadau i adrannau Llywodraeth Cymru yn cynyddu o £19.9 biliwn i £26.5 biliwn, cynnydd o 33 y cant. Mae'r prif godiadau mewn adnoddau cyllidol (ac eithrio'r rhai nad ydynt

¹ Mae'n ymddangos bod gwallau yn nhablau 3.3 a 3.4 yn y Nodyn Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r drydedd gyllideb atodol sy'n dangos ffigurau wedi'u hailddatgan o'r ail gyllideb atodol. Lle mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at yr ail gyllideb atodol, mae'r ffigurau a ddefnyddir yn dod o fannau eraill yn y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r drydedd gyllideb atodol.



yn arian parod) yn y meysydd Economi a Thrafnidiaeth - £664 miliwn (33.1 y cant), Tai a Llywodraeth Leol - £337 miliwn (7.1 y cant) ac Addysg - £168 miliwn (11.3 y cant).

6. Y prif godiadau mewn cyfalaf yw £416 miliwn ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth (57.6 y cant), £181 miliwn ar gyfer Addysg (82.6 y cant) a £171 miliwn ar gyfer Tai a Llywodraeth Leol (23.1 y cant). Mae cynnydd canrannol mawr hefyd yn y cyllid ar gyfer Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, i fyny 48.2 y cant (£26 miliwn).

7. Mae'r adnodd cyllidol heb ei ddyrannu yn £101 miliwn, gydag ychydig yn llai nag £1 filiwn mewn cyfalaf cyffredinol ac ychydig dros £500,000 mewn Cyfalaf Trafodiadau Ariannol.

3. Cyllido

8. Awgryma Tabl 3.1 o'r Nodyn Esboniadol fod y llinell sylfaen adnoddau wedi cynyddu £2.3 biliwn oherwydd symiau canlyniadol Barnett a throsglwyddiadau o'r DU. Mae hyn yn cynnwys adnodd cyllidol o £950.8 miliwn, £497.6 miliwn o gyllid refeniw a drosglwyddwyd i gronfa wrth gefn Cymru ac mae'r gweddill yn adnodd nad yw'n arian parod.

9. At ei gilydd, mae'r llinell sylfaen gyfalaf gyffredinol wedi cynyddu £773.3 miliwn, caiff £40.2 miliwn ei dynnu o gronfa wrth gefn Cymru ac mae £137.1 miliwn o hyblygrwydd y cytunwyd arno gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi, wedi'i drosglwyddo i gronfa wrth gefn Cymru.

10. Mae llinell sylfaen y Cyfalaf Trafodiadau Ariannol wedi cynyddu £52.9 miliwn, tynnir £9.8 miliwn yn ychwanegol o gronfa wrth gefn Cymru a chaiff £25.5 miliwn o hyblygrwydd y cytunwyd arno gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn Cymru.

11. Nododd y Gweinidog:

“The Chief Secretary to the Treasury did allow a degree of flexibility in terms of carrying forward any consequentials generated through the operation of the Barnett formula over and above that £5.2 billion guaranteed funding that was previously confirmed on 23 December. So, the supplementary budget that we have in front of us today details the £660 million that we'll be carrying over into next year, and that is because of the very late notification. So, those funds

will be available for use in full next year, and this arrangement is in addition to the existing Wales reserve flexibility.”²

12. Er gwaethaf yr hyblygrwydd sydd ar gael gyda'r cronfeydd eleni, cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn dal i bwysu ar Lywodraeth y DU am hyblygrwydd ychwanegol,³ a nododd swyddog y Gweinidog mai'r pwynt allweddol yw'r ffaith bod hyn yn drefniant ad hoc a bod hynny'n ei gwneud hi'n anodd cynllunio.⁴

Barn y pwyllgor

13. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y pandemig wedi parhau i roi straen ar y strwythurau cyllido datganoledig ac yn benodol ar y Fframwaith Cyllidol. Mae hyn wedi ei gwneud yn fwy heriol i'r Pwyllgor a'r Senedd gael darlun clir o'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

14. Mae'r Pwyllgor wedi codi pryderon o'r blaen ynghylch y problemau a achosir gan oedi cyn cyhoeddi digwyddiadau cyllidol y DU. Mae'r ansicrwydd hwn yn ei gwneud hi'n anodd i Lywodraeth Cymru gynllunio cyllidebau yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y warant gyllido a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd, er bod problemau ynghylch faint o gyllid sy'n dod i Gymru, a phryd, yn parhau.

15. Noda'r Pwyllgor fod y Gweinidog wedi datgan bod y Gyllideb Atodol yn cynnwys yr holl symiau canlyniadau o Amcangyfrifon Atodol y DU. Gyda'r cyllid yn cael ei gadw mewn cronfeydd wrth gefn adrannol bydd hyd yn oed yn fwy hanfodol, er mwyn sicrhau tryloywder, bod Llywodraeth nesaf Cymru yn parhau i gyhoeddi sefyllfa diwedd blwyddyn ar lefel Llinellau Gwariant y Gyllideb fel y nodir yn Adroddiad Alldro diweddaraf ar gyfer 2019-20.

16. Mae'r Pwyllgor yn falch bod Trysorlys y DU wedi cytuno y gall Llywodraeth Cymru gario drosodd £660 miliwn o gyllid a ddarparwyd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, yn ychwanegol at y terfynau cyfredol, i Gronfa Wrth Gefn Cymru. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith na fydd unrhyw gyfyngiadau o ran cael gafael ar y cyllid hwn yn 2021-22, mae'r Pwyllgor yn cydnabod ac yn cefnogi awydd Llywodraeth Cymru am ddull llai ad hoc o ymdrin â chyllid a ddatganolwyd ac yn benodol cael gwared ar y terfynau o ran cael mynediad at Gronfa Wrth Gefn Cymru.

² Cofnod y Trafodion, 24 Chwefror 2021, paragraff 15

³ Cofnod y Trafodion, 24 Chwefror 2021, paragraff 17

⁴ Cofnod y Trafodion, 24 Chwefror 2021, paragraff 21

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am newidiadau clir a systematig i'r broses gyllido mewn perthynas â digwyddiadau cyllido'r DU.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth nesaf Cymru yn parhau i gyhoeddi adroddiadau Alldro i'r un lefel o fanylion â'r hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth gyfredol Cymru yn adroddiad 2019-20.

4. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

17. Mae'r Drydedd Gyllideb Atodol yn cynyddu dyraniadau i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £244.5 miliwn o'i gymharu â'r Ail Gyllideb Atodol (gan gynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol neu 'AME'), sef cynnydd o 2.4 y cant. Mae hyn yn cynnwys dyraniadau ar gyfer COVID-19 a'r Pecyn Ailadeiladu £74.7 miliwn ac £17.1 miliwn yn y drefn honno o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn, £34 miliwn o gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn a £22 miliwn o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn.

18. Mae'n adlewyrchu cyllid adnoddau net o £17.9 miliwn a drosglwyddwyd o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i MEGs eraill. O hyn, trosglwyddwyd £13.4 miliwn o'r cyllidebau ar gyfer Gwasanaethau Craidd a Gwasanaethau wedi'u Targedu y GIG a £3.0 miliwn ar gyfer Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae.

19. Mae'r dyraniadau hefyd yn adlewyrchu cyllid cyfalaf o £19.2 miliwn a drosglwyddwyd i Wasanaethau Craidd y GIG o MEGs eraill.

Dyraniadau Adnoddau COVID-19

20. Mae'r Drydedd Gyllideb Atodol yn nodi dyraniadau adnoddau ychwanegol o £74.7 miliwn ar gyfer COVID-19, gan gynnwys cyllid ar gyfer olrhain cysylltiadau, y rhaglen frechu a chronfa wrth gefn.

21. Wrth ddiweddarau'r Pwyllgor ar ymateb y GIG i COVID-19, dywedodd y Gweinidog:

“... we've now allocated over £1.1 billion of funding to the NHS, and further allocations will be confirmed during March. All NHS organisations have confirmed to us that they do have the funding that they need in order to continue their response to COVID, including, I think, making that remarkable progress on the mass vaccination programme. And Welsh Government officials and health finance officials are in constant discussion in terms of monitoring the position in-year to explore whether or not additional funding is required, but we have had that confirmation that the organisations do have the funding that they need in order to respond to the pandemic. We

anticipate the outturn will be close to the £1.3 billion funding allocated to the NHS, but that will be confirmed in early summer when the NHS accounts are completed.”⁵

22. Mae'r Drydedd Gyllideb Atodol yn dyrannu £17.1 miliwn i wneud iawn am yr amser a gollwyd o ran trin cyflyrau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID, i gydnabod yr effaith sylweddol y mae cyflwyno'r ymateb brys i COVID-19 wedi'i chael ar draws GIG Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £4 miliwn ar gyfer adnoddau Craidd y GIG i gefnogi capasiti ychwanegol ar gyfer y GIG.

Barn y pwyllgor

23. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gefnogaeth ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i darparu i'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn ac mae'n ystyried bod y cyllid ychwanegol a ddarperir o fewn y gyllideb atodol hon yn ddarbodus o ystyried yr ansicrwydd parhaus hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

5. Llywodraeth Leol

24. Noda'r Drydedd Gyllideb Atodol y bu cynnydd yn yr aelwydydd sydd â hawl i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS), gan nodi:

“Yn wahanol i'r gwaith arferol o gynnal hawliau, ni allai'r awdurdodau lleol fod wedi rhag-weld y cynnydd yn y galw am CTRS o ganlyniad i Covid-19 pan oeddent yn llunio eu cynlluniau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21.”

25. Dyrennir £8.1 miliwn yn ychwanegol i awdurdodau lleol i gymryd lle incwm coll o'r CTRS. Mae'r naratif hefyd yn nodi y bydd yr effaith ar incwm cartrefi nid yn unig yn cael effaith ar y CTRS ond hefyd ar gyfraddau casglu'r dreth gyngor. Aiff ymlaen i ddweud:

“Yn ystod y pandemig, mae gan yr awdurdodau lleol gyfrifoldebau ychwanegol dros weinyddu taliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 gan gynnwys grantiau busnes, hunanynysu a chynlluniau gwella SSP. Mae'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn yn debygol o fod wedi effeithio ar allu'r awdurdodau i gasglu'r dreth gyngor.”

26. Gan weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £22.6 miliwn yn ychwanegol i dalu am 75 y cant o'r golled a ragwelir o incwm y dreth gyngor yn 2020-21.

⁵ Cofnod y Trafodion, 24 Chwefror 2021, paragraff 55

Cronfa Caledi Awdurdod Lleol

27. Drwy gydol y pandemig mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid brys i awdurdodau lleol, y mwyafrif o hynny drwy'r Gronfa Caledi Awdurdodau Lleol. Yn **Atodiad Cyntaf y Gyllideb** neilltuwyd £188.5 miliwn at y diben hwn, a chafodd ei gynyddu £306.6 miliwn yn yr **Ail Gyllideb Atodol**, ac nawr caiff ei ymestyn ymhellach gyda **£92.5 miliwn** yn ychwanegol. Mae'r gronfa'n gweithredu ar sail hawliadau.

28. Gan gydnabod bod awdurdodau lleol gwahanol yn wynebu pwysau gwahanol, dywedodd y Gweinidog:

“...we've tried to work with local government to understand where the real pressures are and to provide a system that is fair to local government, because ... not every local government will face the same issues. So, the fund has been based largely on a claims basis so that we're able to respond appropriately to each of those local authorities' needs.”⁶

Y Sector Gwirfoddol a Chymunedau

29. Mae £3.2 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF). Mae'r naratif yn nodi bod ceisiadau am Daliad Cymorth mewn Argyfwng wedi cynyddu'n sylweddol o 15,650 cyn dyfodiad y pandemig ym mis Chwefror i 29,000 ym mis Tachwedd 2020. Cyfanswm y cyllid ychwanegol yn 2020-21 ar gyfer y DAF yw £14.9 miliwn.

30. Mae'r Gyllideb Atodol yn ychwanegu £4.7 miliwn at **Gronfa Ymateb y Trydydd Sector** gwerth £24 miliwn ac yn ailffocysu'r arian i gefnogi gweithgareddau'n uniongyrchol i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig ar gydraddoldeb (ariennir hyn o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu).

31. Dywedodd y Gweinidog fod y trydydd sector a'r sector gwirfoddol yn un o bedair colofn allweddol ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig, ac ychwanegodd:

“... we've got the health and social care pillar, the local government pillar, transport, and also the role of the third sector, and we can see that reflected in the £24 million COVID-19 third sector response fund, which we put in place in April 2020. That aimed to do a number of things, one of which was supporting those third sector organisations to respond to the crisis, but also to support those organisations that were suffering as a result of the loss of fundraising income, just to help them support the crisis. So, there was a resilience fund allocation of around £10 million for that, recognising that, in the recovery, these organisations are going to play such an important role that

⁶ Cofnod y Trafodion, 24 Chwefror 2021, paragraff 80

they need to survive. So, we have made some significant funding available. I think, within this third supplementary budget you'll see £4.7 million allocated, but that's part of a larger picture that began at the start of the pandemic.”⁷

Barn y pwyllgor

32. Noda'r Pwyllgor fod y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar incwm awdurdodau lleol, a bydd eu gallu i godi incwm yn parhau i gael ei effeithio yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae effaith y pandemig ar ffrydiau cyllido, ac eithrio'r cyllid gan Lywodraeth Cymru, yn amrywio yn ôl awdurdod. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarperir drwy'r Gronfa Galedi i Awdurdodau Lleol, ond mae'n credu bod angen sicrwydd gan Lywodraeth Cymru bod y cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol yn ystyried effaith lawn wahaniaethol COVID-19 ar incwm awdurdodau lleol.

33. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y rôl y mae'r trydydd sector yn ei chwarae wrth ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau sy'n cefnogi gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau lleol a bod y sector hwn hefyd wedi cael ei effeithio o ran y gallu i godi refeniw. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarperir yn y Drydedd Gyllideb Atodol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol a chronfa ymateb y Trydydd Sector ond noda fod lefel y cyllid ychwanegol y mae'r sector yn ei gael yn fach o'i gymharu â'r cymorth a roddir i'r gwasanaeth iechyd.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau bod y cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol yn ystyried effaith wahaniaethol COVID-19 ar incwm awdurdodau lleol yn llawn.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau bod y cyllid ychwanegol a ddarperir yn y Drydedd Gyllideb Atodol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol a chronfa ymateb y Trydydd Sector yn adlewyrchu'n llawn yr effaith ar wahanol ardaloedd a sefydliadau yn y Trydydd Sector.

6. Addysg

34. Mae'r MEG Addysg wedi derbyn £167.7 miliwn yn ychwanegol ar gyfer adnoddau a £180.9 miliwn o gyfalaf yn y Drydedd Gyllideb Atodol. Amlygodd y nodyn esboniadol fod Llywodraeth Cymru yn “darparu cyllid sylweddol ar gyfer

⁷ Cofnod y Trafodion, 24 Chwefror 2021, paragraff 84

addysg, gan gydnabod gymaint y mae'r pandemig wedi amharu ar ddysgwyr, a'r angen i ddarparu cyfle iddynt ddal i fyny ac ymaddasu”.

Dysgu digidol

35. Ar 29 Ebrill 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai hyd at £3 miliwn ar gael i ddysgwyr sydd 'wedi'u hallgáu o'r byd digidol' yn ystod y pandemig. Ar 2 Gorffennaf 2020, cadarnhaodd ei fod wedi rhoi 10,848 o ddyfeisiau MiFi a 9,717 o drwyddedau meddalwedd i ddysgwyr, yn seiliedig ar y galw a nodwyd gan ysgolion a'u hawdurdodau lleol.

36. Cyhoeddodd Estyn adroddiad ym mis Ionawr 2021, a ddywedodd fod profiadau dysgu disgyblion yn nhymor yr hydref yn amrywio'n fawr ar draws ac o fewn ysgolion a gwnaeth bum argymhelliad i Lywodraeth Cymru i hyrwyddo dysgu a chefnogaeth i ddisgyblion sy'n agored i niwed. Un o'r argymhellion oedd mynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu gartref, yn enwedig yn sgil diffyg mynediad at gyfrifiaduron addas neu gysylltedd digonol.

37. Ym mis Ionawr 2021, fe wnaeth Comisiynydd Plant Cymru gomisiynu ymchwil i'r gagendor digidol o safbwynt ysgolion a cholegau yng Nghymru. Canfu fod 42 y cant o ysgolion a cholegau wedi dweud nad oedd ganddynt ddigon o ddyfeisiau.

38. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o ddyraniadau sy'n ymwneud â dysgu digidol, gan gynnwys:

- Cyllid cyfalaf ychwanegol o £4.9 miliwn i fynd i'r afael ag allgáu digidol mewn Addysg Bellach.
- £40 miliwn ar gyfer caledi myfyrwyr ac iechyd meddwl myfyrwyr, a fyddai hefyd yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â 'thlodi digidol' ymhlith myfyrwyr.
- £2.6 miliwn i ddarparu cefnogaeth ddigidol i brentisiaid.
- £9m i gefnogi awdurdodau lleol a sefydliadau AB gyda'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â meddalwedd arbenigol, sesiynau ychwanegol i gadw at reolau cadw pellter cymdeithasol, a helpu dysgwyr ag ADY i gael mynediad at ddarpariaeth gyfunol ac o bell.
- £11.9 miliwn o gyfalaf ar gyfer 50,000 o ddyfeisiau digidol ychwanegol.
- £6 miliwn o gronfeydd cyfalaf cyffredinol i gefnogi'r buddsoddiad TG a'r gost i ddarparwyr o sicrhau bod cyfarpar digidol ar gael i ddysgwyr.

39. Dywedodd y Gweinidog:

“... within this supplementary budget, you'll see that we've allocated additional funding of £11.9 million capital, and that will allow us to purchase an

additional 50,000 devices for schools, and that will take the total number of devices that we've been able to allocate to children via their schools to over 180,000 to ensure that children are able to do their work from home. So, I think that that has significantly been ramped up over the course of the year, and I would always encourage any families who are still struggling to speak to their school, and schools, in my experience, have been very keen to access those devices to ensure that children can undertake their work.”⁸

40. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog fod galw mawr am gyfarpar digidol ledled Ewrop a'r byd, gan nodi bod heriau i Lywodraeth Cymru o ran cael ei dwylo ar yr dyfeisiau sydd eu hangen arni.⁹

Barn y pwyllgor

41. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y cyllid a ddyrannwyd i gefnogi dysgu digidol, ac yn nodi'r materion sy'n ymwneud â'r galw byd-eang am ddyfeisiau digidol. Fodd bynnag, mae'n destun pryder y bu heriau o ran cael gafael ar gyfarpar ac efallai na fydd gan rai dysgwyr fynediad at y cyfarpar angenrheidiol i'w cefnogi gyda dysgu digidol.

42. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth nesaf Cymru i sicrhau bod effaith y pandemig ar addysg plant Cymru yn cael ei lleihau i'r eithaf ac, os oes angen, dylid dyrannu cyllid ychwanegol yn 2021-22 a thu hwnt i gefnogi'r rhai a allai fod ar ei hôl hi.

7. Yr Economi

43. Y MEG Economi a Thrafnidiaeth sydd wedi cael y dyraniad mwyaf o fewn y Gyllideb Atodol hon, gyda thros £660 miliwn o refeniw ychwanegol a £345 miliwn o gyfalaf wedi'i ddyrannu ers yr Ail Gyllideb Atodol.

44. Dyrannodd Cyllideb Derfynol 2020-21 £1.6 biliwn i'r MEG Economi a Thrafnidiaeth, a chyda dyraniadau yn ystod y flwyddyn mae wedi dod i gyfanswm o £4.2 biliwn.

Cymorth Busnes

45. Mae mwyafrif y cyllid sy'n gysylltiedig â chymorth busnes, ac o fewn hynny, ar gyfer grantiau sy'n gysylltiedig ag ardrethi busnes. Ddiwedd mis Tachwedd 2020, cyhoeddwyd cyfyngiadau cyn y Nadolig yng Nghymru a arweiniodd at gyllid

⁸ Cofnod y Trafodion, 24 Chwefror 2021, paragraff 102

⁹ Cofnod y Trafodion, 24 Chwefror 2021, paragraff 105

ychwanegol drwy'r Gronfa Gwydnwch Economaidd (ERF), y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau a Chyllid ar gyfer Sector Penodol.

46. Cafodd y cymorth hwn ei ehangu wedi hynny i gwmpasu'r cyfnod rhwng Rhagfyr 2020 a Mawrth 2021 ar ôl gweithredu'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â lefel Rhybudd 4 cyn y Nadolig.

47. Cyda'i gilydd, mae hyn yn golygu, ar gyfer y cyfnod 4 Rhagfyr 2020 hyd ddiwedd Mawrth 2021, y gall pob busnes y mae'r rhyddhad ardrethi busnesau bach yn ei gwmpasu gael taliad o hyd at £6,000, gyda'r rhai sydd â gwerth ardrethol annomestig o dros £12,001 yn gymwys i gael taliad o £10,000.

48. Mae Gwerthusiad o'r ERF a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr yn dangos bod grantiau ERF wedi cefnogi bron i 12,000 o gwmnïau/sefydliadau yng Nghymru a 125,000 o swyddi (tua 10.5 y cant o gyfanswm y gyflogaeth).

49. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion o ran dadansoddi yn y dyfodol gan gynnwys:

“The analysis in this report has focused on successful applicants under the main ERF elements. There is also a challenge to explore those applicants which were unsuccessful, and to establish patterns in unsuccessful application by industry and geography.”

50. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cefnogi busnesau, gan wario mwy yng Nghymru na'r cyllid a ddaeth i law ar ffurf symiau canlyniadol, ac ychwanegodd

“We've also allocated in the order of £2 billion to support businesses and, actually, £1.8 billion of that has already gone into the accounts of businesses. I think that that achievement is phenomenal in terms of the kind of speed that we're trying to get these business grants out to the necessary businesses.”¹⁰

51. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y byddai canol trefi'n cael eu cefnogi ar ôl y pandemig, meddai:

“... we're really fortunate in the sense that we already had a really strong strategic approach ... through our £110 million Transforming Towns programme ... But the funding that we've allocated within this supplementary budget includes £5 million for the Transforming Towns strategic sites acquisition fund. So, that will allow local authority partners to identify and review available buildings and land within or closely aligned to town and city centres that can be used for new purposes in future. Local hubs for businesses

¹⁰ Cofnod y Trafodion, 24 Chwefror 2021, paragraff 119

and the third sector or other public uses might be a useful use of those sites, for example.”¹¹

Barn y pwyllgor

52. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y pandemig wedi cyflymu newidiadau i'r ffordd y mae pobl yn siopa ac wedi lleihau'r galw am ofod manwerthu yng nghanol trefi. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai polisi fod yn seiliedig ar syniadau a thystiolaeth sy'n adlewyrchu'n llawn y tueddiadau newidiol o ran y ffordd yr ydym yn siopa. Mae angen i'r cyllid a ddarperir i gefnogi busnesau, canol trefi ac anghenion adfer gael ei dargedu'n briodol.

8. Pontio o'r UE

Cytundeb masnach

53. Ar 24 Rhagfyr 2020, daeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd i gytundeb ar eu perthynas fasnachu yn y dyfodol. Daeth y berthynas fasnachu newydd hon i rym ar 1 Ionawr 2021, ar ddiwedd y cyfnod pontio. Yn ei ddatganiad mewn ymateb i'r cytundeb, dywedodd Prif Weinidog Cymru:

“..mae'n glir yn barod, nid hwn oedd y math o gytundeb yr oedd Llywodraeth Cymru wedi dymuno ei gael. Cytundeb a fyddai wedi diogelu swyddi, yr economi a hawliau ein dinasyddion oedd gennym ni mewn golwg.”

Porthladdoedd a Physgodfeydd

54. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ar 2 Tachwedd 2020, yn ystod y broses o graffu ar yr Ail Gyllideb Atodol:

“I have earmarked some funding... in relation to ports and border issues, and I think that will be important as we move through the end of the year as well. But I think it's also important to remember that many of the negative impacts of Brexit will hit in future years.”

55. Ar 1 Ionawr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gynlluniau wrth gefn ar gyfer Porthladd Caergybi yn dilyn diwedd y cyfnod pontio. Nododd hyn:

“Mae'r senario waethaf sy'n rhesymol ei thybied a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn nodi y gallai 40% i 70% o'r cerbydau nwyddau trwm sy'n cyrraedd porthladdoedd ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio gael eu troi i ffwrdd am beidio â chael y ddogfennaeth gywir.”

¹¹ Cofnod y Trafodion, 24 Chwefror 2021, paragraff 149

56. Mae'r Drydedd Gyllideb Atodol yn cynnwys dyraniad tuag at ffordd ddynesu'r A55 i Borthladd Caergybi, gyda £2.08 miliwn o gyllid i'r MEG Economi a Thrafnidiaeth o'r cronfeydd adnoddau cyllidol.

57. Dywedodd y Gweinidog fod trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn parhau ynghylch ariannu'r costau seilwaith i ddiweddarau porthladdoedd yn dilyn rheolau masnachu newydd, ond maent yn addawol.¹²

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF)

58. Noda naratif y Gyllideb Atodol y derbyniwyd **£3.8 miliwn gan Drysorlys Ei Mawrhydi**, sy'n cael ei ddyrannu 'mewn perthynas â chronfeydd strwythurol yr UE'. Ac mae £53.7 miliwn wedi'i ddyrannu i'r MEG Economi a Thrafnidiaeth i gefnogi prosiectau sy'n seiliedig ar anghenion 'yn dilyn atal cyllid yr UE'.

59. Amlinellodd Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, sut olwg fyddai ar y cynllun yn fras, **gan nodi**:

“Funding for the UKSPF will ramp up so that total domestic UK-wide funding will at least match receipts from EU structural funds, on average reaching around £1.5 billion per year. In addition, to help local areas prepare over 2021-22 for the introduction of the UKSPF, the government will provide additional UK-wide funding to support communities to pilot programmes and new approaches.”

60. Aiff yr Adolygiad o Wariant ymlaen **inodi** y bydd manylion pellach am sut y bydd UKSPF yn gweithredu yn cael eu cyhoeddi yng Ngwanwyn 2021, gyda manylion pellach i ddilyn ar natur y cyllid ychwanegol sydd i'w ddarparu yn 2021-22, gan ddefnyddio'r pwerau cymorth ariannol newydd ym Mil Marchnad Fewnol y DU. Ar 8 Chwefror 2021, **adroddodd** Llywodraeth y DU y byddent yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Barn y pwyllgor

61. Y Gyllideb Atodol hon yw'r gyntaf ers cytuno ar gytundeb masnach yr UE. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod hyn wedi pwysleisio'r angen am fuddsoddiad helaeth mewn seilwaith ar gyfer porthladdoedd Cymru. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariadau ar gynnydd y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau bod cyllid llawn ac amserol ar gael i wneud y newidiadau hyn.

¹² Cofnod y Trafodion, 24 Chwefror 2021, paragraff 147

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyllid ar gyfer seilwaith buddsoddi ym mhorthladdoedd Cymru.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am y diffyg manylion ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau setliad cyllido teg i Gymru.

Cyrff a ariennir yn uniongyrchol

62. Mae cynnig y Gyllideb Atodol yn cynnig amrywiad i gyllidebau'r tri chorff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau hyn yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2021.

63. Mae'r tri chorff a ariennir yn uniongyrchol yn nodi costau ychwanegol ar gyfer cronni gwyliau blynyddol staff, oherwydd effaith y pandemig ar gynlluniau gwyliau staff a llwythi gwaith. Addasiad cyfrifyddu technegol yw hwn. Gan nad oes cost mewn termau arian parod, nid yw'n effeithio ar y gofyniad arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru.

Comisiwn y Senedd

64. Mae Ail Gyllideb Atodol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2020-21 yn adlewyrchu dau newid i'r adnoddau a nodir yn ei Gyllideb Atodol Gyntaf:

- cynnydd yn yr AME ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd (£0.4 miliwn);
- ni ddisgwylir cynnydd yn y gyllideb adnoddau ar gyfer y cronriad ar gyfer gwyliau blynyddol y staff erbyn 31 Mawrth 2021 (£0.65 miliwn).

65. Mae'r newid yn AME y Cynllun Pensiwn yn addasiad nad yw'n arian parod ac mae'r swm y mae Comisiwn y Senedd (y Comisiwn) yn ei dalu i'r Cynllun yn ddigyfnewid yn 2021-22. Mae'n adlewyrchu newid i'r prisiad actiwaraid gan arwain at addasiad o werth a rhwymedigaethau'r Cynllun dros yr hirdymor y mae angen rhoi cyfrif amdano yn y datganiad ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

66. Oherwydd y pandemig a'r effaith ar staff, mae amcangyfrif y Comisiwn o ddiwrnodau cyfartalog gwyliau blynyddol a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn wedi cynyddu o 6.88 diwrnod i 13 diwrnod o wyliau blynyddol.

67. Mae effaith net y newidiadau hyn yn arwain at gynnydd o £1.5 yn anghenion adnoddau'r Comisiwn, sy'n dod â'r cyfanswm i £60.625 miliwn. Fodd bynnag, mae'r ddau newid yn gofnodion cyfrifyddu technegol nad ydynt yn effeithio ar ei ofyniad arian parod net, sy'n parhau i fod yn £56.075 miliwn.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

68. Mae rhwymedigaethau pensiwn staff yr Ombwdsmon yn cael eu cyflawni drwy ddau gynllun ar wahân: Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil gynt); a Chronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol).

69. Fel y nodir yn [adroddiad y Pwyllgor ar graffu ar yr Amcangyfrif ar gyfer 2018-19](#), mae'r Ombwdsmon wedi nodi diffyg mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ers 2010-11. Yn flaenorol, dywedodd yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor y byddai'r diffyg hwn yn cael ei gwmpasu mewn rhandaliadau blynyddol ychwanegol, gyda'r bwriad y byddai'r diffyg yn cael ei ad-dalu erbyn 2017-2018. Erbyn mis Mawrth 2017, [adroddwyd bod gwarged o £40,000. Dangosodd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20 warged o £1.08 miliwn](#), cynnydd o £810,000 yn 2018-2019.

70. Ar 5 Hydref 2020, yn ystod y broses graffu ar ei Amcangyfrif Drafft ar gyfer 2021-22, hysbysodd Cyfrifydd Ariannol yr Ombwdsmon y Pwyllgor, ers cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2019-20, fod yr aelod olaf o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi ymddiswyddo. Nododd fod yr Actiwari ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi cadarnhau y byddai ad-daliad sylweddol o'r gwarged yn cael ei dalu i swyddfa'r Ombwdsmon - rhagwelir y bydd oddeutu £1 filiwn.¹³

71. Mae [Amcangyfrif Atodol](#) diweddaraf yr Ombwdsmon ar gyfer 2020-21 yn cynnwys:

- cynnydd mewn incwm, ynghyd â gostyngiad cyfatebol yn yr arian a geisiwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru, o ystyried yr ad-daliad a dderbyniodd yr Ombwdsmon gan Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (£974,000);
- cynnydd yn y gyllideb adnoddau ar gyfer gwyliau blynyddol cronodig staff (£160,000).

72. Mae'r Ombwdsmon yn adrodd ei fod wedi cytuno â swyddogion Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru i drin ad-daliad y gwarged pensiwn fel 'incwm'. Fe'i defnyddir i dalu am wariant gweithredol yr Ombwdsmon a lleihau cyfanswm y gofyniad arian parod ar gyfer 2020-21 a nodir yn ei [Amcangyfrif Atodol Cyntaf](#).

73. Mae'r Ombwdsmon yn nodi, oherwydd y pandemig a'i effaith ar gynlluniau gwyliau staff, ei fod wedi cynyddu dros dro nifer y diwrnodau y gall pob gweithiwr eu cario ymlaen i'r flwyddyn wyliau nesaf (i 14 diwrnod). Ychwanegodd er bod staff wedi cael eu hannog i gymryd amser i ffwrdd, ac wedi gwneud hynny, nid yw llawer o staff wedi cael cyfle i gael seibiant estynedig. O ganlyniad, disgwylir i swm y gwyliau sydd heb ei gymryd ar 31 Mawrth 2021 fod yn sylweddol, er nad yw'r Ombwdsmon yn nodi sawl diwrnod o wyliau ar gyfartaledd nad yw pob gweithiwr yn debygol o fod wedi'i gymryd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

¹³ [Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 206](#)

74. Mae effaith net y newidiadau hyn yn cynyddu cyfanswm gwariant yr Ombwdsmon o £160,000 i £5.270 miliwn ac yn lleihau'r gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru o £974,000 i £4.096 miliwn.

Archwilio Cymru

75. Ym mis Gorffennaf 2020, ysgrifennodd Archwilio Cymru at y Pwyllgor yn awgrymu ei fod wedi amcangyfrif angen posibl i gynyddu ei ddefnydd o Gronfa Gyfunol Cymru oddeutu £500,000 ar gyfer 2020-21, o ganlyniad i'r ffaith bod ei waith archwilio yn cymryd mwy o amser a'i fod yn ail-lunio ei raglen waith archwilio perfformiad yn sylweddol oherwydd y pandemig. Nododd Archwilio Cymru y byddai'n "annhebygol iawn" y byddai cyflawni'r incwm ffioedd a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn lawn 2020-21, gan amcangyfrif gostyngiad o £600,000 mewn incwm ffioedd.

76. Nododd y llythyr hefyd arbedion cost, gan gynnwys ei Gynllun Ymadael Gwirfoddol a swyddi gwag, ac yn benodol:

- teithio a chynhaliaeth - £230,000;
- digwyddiadau datblygu staff, recriwtio a hyfforddi - £95,000;
- swyddfeydd - £50,000;
- meysydd cyllideb eraill fel cyfieithu, argraffu a deunydd ysgrifennu - £30,000.

77. Yn ei Adroddiad Interim 2020-21 (Hydref 2020) nododd ei fod ar y trywydd iawn i gyflawni ei raglen lawn o waith cyfrifon archwilio 2019-20, "ond dros gyfnod mwy estynedig" a "llwyddwyd i wneud mwy o waith ac felly gynhyrchu cyfran fwy" o'i incwm ffioedd arfaethedig na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

78. Mae Ail Amcangyfrif Atodol Archwilio Cymru:

- yn cydnabod cynnydd mewn incwm ffioedd yn 2020-21 (£266,000);
- yn lleihau ei adnoddau refeniw mewn perthynas â threuliau'r Cadeirydd (£5,000).

79. Mae'r incwm ffioedd ychwanegol yn cynyddu cyfanswm yr adnoddau i £22.493 miliwn - cynnydd o ychydig dros 1 y cant yn y gyllideb gyffredinol ac ychydig o dan 2 y cant o ran yr incwm ffioedd a ragwelir ar gyfer y flwyddyn. Nid yw'r newid hwn yn effeithio ar y gofyniad arian parod net a geisir o Gronfa Gyfunol Cymru.

80. Mae Archwilio Cymru yn awgrymu bod gweithio o bell wedi arwain at oedi wrth gynhyrchu rhai o gyfrifon cyrff archwiliedig a phapurau gwaith cysylltiedig, sydd wedi cynyddu'r amser a gymerir i gyflawni gwaith archwilio. O ganlyniad,

mae wedi cynyddu cost y gwaith a wneir gan staff a chontractwyr Archwilio Cymru. Pan fo'r costau hyn yn deillio o aneffeithlonrwydd staff Archwilio Cymru, mae'r costau i'w hamsugno. Fodd bynnag, pan fyddant yn deillio o oedi neu gyfrifon o ansawdd gwael a gyflenwir gan gyrff archwiliedig, gall ffioedd ychwanegol fod yn daladwy (ac maent wedi bod yn daladwy).

81. Mae Archwilio Cymru yn nodi y bydd incwm ac arbedion ychwanegol a wneir ar draws meysydd cyllideb eraill (megis teithio a chynhaliaeth) yn cael eu defnyddio i dalu costau ychwanegol, gan gynnwys gwaith a wneir gan gwmnïau contractwyr a'r costau sy'n gysylltiedig â staff yn gohirio gwyliau blynyddol. Bydd Archwilio Cymru hefyd yn defnyddio'r cyllid hwn i fuddsoddi yn ei Gynllun Ymadael Gwirfoddol.

82. Mae'r Amcangyfrif Atodol hefyd yn gwneud addasiad ar gyfer treuliau'r Cadeirydd, a dalwyd yn flaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac a ariannwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru. Fodd bynnag, nodwyd y dylid ariannu hyn fel tâl uniongyrchol a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru. Bellach mae Comisiwn y Senedd yn talu'r costau hyn ac yn cael eu had-dalu drwy godi tâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru. Prisir yr addasiad hwn ar £5,000 ac mae'n gostwng gofyniad arian parod net SAC o Gronfa Gyfunol Cymru gan y swm hwn.

83. Ar ôl ystyried Amcangyfrif Atodol 2020-21, **ysgrifennodd** y Pwyllgor at Archwilio Cymru yn gofyn am ragor o fanylion am werth amcangyfrifedig gwyliau blynyddol a gronnwyd gan y staff o ganlyniad i'r pandemig. Yn ei **ymateb**, nododd Archwilio Cymru, ar ddiwedd 2019-20, fod gwerth gwyliau blynyddol cronedig yn £521,000 - sy'n cyfateb i gyfartaledd o 8.5 diwrnod ar gyfer pob aelod o staff ac ar gyfer 2020-21, roedd yn disgwyl i falansau gwyliau blynyddol cronedig gynnydd o oddeutu 3 diwrnod i bob aelod o staff - sy'n cyfateb i godi tâl uwch ar ei gyfrifon o £200,000.

Barn y pwyllgor

84. Mae'r Pwyllgor yn nodi gwerth yr addasiadau cyfrifyddu technegol a wneir i adlewyrchu cost ychwanegol gwyliau blynyddol a gronnwyd gan staff yn y tri chorff a ariennir yn uniongyrchol.

85. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ad-daliad o wargedion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i swyddfa'r Ombwdsmon ac yn nodi'r bwriad i drin yr ad-daliad hwn fel cynnydd mewn incwm, a thrwy hynny leihau'r arian a geisir o Gronfa Gyfunol Cymru.

86. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r **llythyr** gan y Gweinidog dyddiedig 2 Mawrth 2021 mewn perthynas â'r disgrifiad o fewn y cynnig cyllidebol i ganiatáu i'r Ombwdsmon gadw gwarged y cynllun pensiwn.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad yn y cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.